CYMRU WLEDIG
LPIP
RURAL WALES

# Ymchwil sy’n canolbwyntio ar bolisi ar gyfer Cymru Wledig

## Cyflwyno Cymru Wledig LPIP Rural Wales



Y newid yn yr hinsawdd a phontio sero net; tai fforddiadwy; dirywiad y stryd fawr; colli gwasanaethau lleol; prinder cyfleoedd i fuddsoddi a gweithio. Mae cymunedau yng Nghymru yn wynebu nifer o broblemau heriol ac yn aml nid oes dealltwriaeth nac ymchwil ddigonol i'r problemau sy'n effeithio ar y rhai mewn rhanbarthau gwledig yn benodol. Caiff gwydnwch cymunedau lleol ei brofi ar adegau o galedi economaidd, ac mae angen atebion arloesol er mwyn datrys y problemau anodd hyn.

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn bartneriaeth o brifysgolion, partneriaid polisi, mentrau cymdeithasol, a busnesau sy'n ymrwymo i archwilio sut y gall ymchwil ac arloesi helpu i ddod o hyd i'r atebion i'r heriau sy'n wynebu cymunedau cefn gwlad Cymru, diolch i grant o £5m gan gorff cyllido ymchwil Llywodraeth y Deyrnas Unedig, UKRI.

*"Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar atebion. NID gwneud ymchwil er mwyn gwneud ymchwil rydym ni, ond er mwyn gwneud gwahaniaeth."*



Cyflwyno Cymru Wledig LPIP Rural Wales, Yr Athro Mike Woods, yn y digwyddiad lansio yn y Senedd, Gorffennaf 2024.

## Yr Her

Pwrpas Cymru Wledig LPIP Rural Wales yw hwyluso defnyddio ymchwil ac arloesi yn fwy effeithiol er mwyn cefnogi datblygiad a chyflawniad polisiau. Ein nod yw cefnogi datblygiad cynhwysol, cynaliadwy yng Nghymru Wledig, gan weithio tuag at Economi Llesiant lle caiff ffyniant economaidd ei gydbwyso gyda lles cymdeithasol a gwytnwch amgylcheddol.

Mae llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adfywio economaidd yng Nghymru Wledig, ond caiff y twf ei lesteirio gan ddaearyddiaeth wasgaredig y rhanbarth, maint bach busnesau lleol, prinder cyfalaf mewndarddol ar gyfer buddsoddi, ac isadeiledd annigonol.

Mae diffyg data a thystiolaeth berthnasol, gyfoes a lleol hefyd yn rhwystr wrth lunio a gweithredu polisïau.

Cydnabyddo gwleidyddion ac arweinwyr cymunedol bod angen datblygu atebion unigryw ar gyfer Cymru Wledig, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a dibynadwy.

Yn ystod lansiad yr LPIP yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2024, cawsom rannu ein gweledigaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf gyda'n rhanddeiliaid gwleidyddol.

Ers hynny, rydym wedi dechrau prosiectau sy'n edrych ar y syniad o 'dwf' yn yr economi wledig; sy'n ymchwilio i entrepreneuriaeth menywod mewn amaethyddiaeth; ac sy'n mapio asedau cymunedol, ymhlith eraill. Mae'n gyffrous gweld ein hymchwilwyr yn mynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae mwy o brosiectau'n cael eu cynllunio mewn ymateb i anghenion a adnabuwyd gan ein partneriaid a'n rhanddeiliaid.

## Creu Economi Lles. Gyda'n Gilydd.

Mae grwpiau thematig, sy'n cynnwys ymchwilwyr, llunwyr polisi, ymarferwyr, a chynrychiolwyr cymunedol yn cwrdd bob chwarter i rannu arferion gorau, a rhoi diweddariadau ar y cynnydd yn eu meysydd ymchwil penodol. Caiff themâu ymchwil newydd eu canfod drwy gydol cylch bywyd y prosiect, wrth i ddata, rhwydweithiau a dadansoddiad ddod â chyfleoedd newydd i'r amlwg, ac wrth i bartneriaethau newydd gael eu sefydlu.

Meddai'r Athro Alison Park, pennaeth creu cyfleoedd, gwella canlyniadau UKRI:

*"Trwy'r cydweithrediadau hirdymor hyn, byddwn yn cyflymu'r defnydd o ymchwil ac arloesi er mwyn lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol ac ysgogi twf cynaliadwy, cynhwysol."*

## Cymru Wledig LPIP Rural Wales

Trwy ddod ag arbenigwyr o bob rhan o Gymru ynghyd, nod y bartneriaeth yw edrych ar sut y gall ymchwil ac arloesi gysylltu gwahanol feysydd polisi, gan helpu i wella'r ddealltwriaeth o anghenion gwirioneddol cymunedau gwledig. Bydd y prosiect yn sicrhau allbwn academaidd ac allbwn ymarferol fydd yn sicrhau newid go iawn ar lawr gwlad.

Bydd ein gwaith yn cynnwys arolygon ac astudiaethau er mwyn casglu a dadansoddi data newydd i lenwi bylchau tystiolaeth; labordai arloesi i ganfod a phrofi atebion i broblemau polisi allweddol; a chynnal trafodaethau cyhoeddus i drafod materion anodd. Byddwn yn creu Canolfan Tystiolaeth Integredig Ar-lein ar gyfer Cymru Wledig, gan wneud data'n fwy hygyrch. Byddwn hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau lleol, gan eu cefnogi i gynnal eu hymchwil eu hunain ar flaenoriaethau lleol.



## Themâu Ymchwil

**Adeiladu Economi Adfywiol**

**Gwella Lles yn ei Le**

**Grymuso Cymunedau ar gyfer Adferiad Diwylliannol**

**Cefnogi'r Pontio Sero Net**



## Sut mae twf yn edrych mewn rhanbarth gwledig a sut y gellir ei feithrin?

Mae nifer o sefydliadau rhagorol ac ymrwymedig yn ymchwilio ac yn tynnu sylw at heriau gwledig yn barod, ond mae prosiectau o'r fath yn aml yn ddatgymalog, yn fyr, ac nid oes ganddynt y data perthnasol sydd ei angen arnynt i fod yn effeithiol bob amser. Bydd Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn goresgyn y rhwystrau hyn trwy gysylltu'r prosiectau presennol, hwyluso cyfnewid gwybodaeth, a llenwi bylchau yn y dystiolaeth.

## Cysylltu â ni

Os hoffech chi gydweithio neu gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Athro Michael Woods, Cyfarwyddwr, Cymru Wledig LPIP Rural Wales
**lpip@aber.ac.uk**

Gwefan: **www.lpip.cymru**

LinkedIn: **www.linkedin.com/company/cymru-wledig-lpip-rural-wales**

## Ariannwyd gan

## Partneriaid Craidd

## Cynhaliwyd gan